# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

**DYDD** Mawrth, 22 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** D.M. Jenkins (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Jones, Arweinydd Cymorth Tenantiaeth;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 11.00 yb**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIAD 12FED TACHWEDD 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 12fed Tachwedd, 2020, gan ei fod yn gywir.**

**3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**4. DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu cynnwys yr adroddiad gan y byddai datgelu yn golygu y byddai gwybodaeth sensitif am yr unigolion yn cael ei datgelu'n anghymesur i'r cyhoedd.**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad oedd wedi ei lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran dyledion cyn-denantiaid ac yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500 gan gyn-denantiaid.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yr achosion a amlinellwyd yn yr adroddiad a rhoddodd ystyriaeth i'r adroddiadau unigol ar gyfer pob un o'r cyn-denantiaid a

oedd yn manylu ar y rhesymau dros geisio dileu dyledion. Roedd y rhesymau yn cynnwys amgylchiadau personol.

**PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill.**

____________________________________ _____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**